

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ebrill 28ain 2014 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **04/14 PRESENNOL:** Cynghorwyr. John Crossley[Cadeirydd], Christopher Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyfieithydd, Aelod o'r cyhoedd
2. **04/14 HEDDLU:** Clerc i hysbysu'r heddlu bod car Citroen CV Coch yn teithio ar gyflymder mawr drwy Felindre. Yn dilyn hyn y Clerc i ofyn i Adran Trafnidiaeth y Sir am '30mph Repeater Signs' yng Nghwmpengraig.
3. **04/14 YMDDIHEURIADAU:** Jamie Ayres, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones, Nesta Jones, Caroline Roberts, Adrian Thomas. Cyng.Sir - K Howell, PC I Ayers,
4. **04/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mawrth 31ain 2014 a'u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. C Jones
Eilydd – Cyng. J Wigley
5. **04/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim
6. **04/14 MATERION YN CODI :**
 - 12.i.01/14 a) coeden wedi dod lawr – Clerc wedi rhoi gwybod i goedwigwr y Sir – gofynnodd i Cyng. C Roberts i edrych a yw'r gwaith wedi ei wneud – ddim yn y cyfarfod i ymateb
 - 12.v.01/14 a) reilen llaw wedi torri - wedi rhoi gwybod i'r warden – gofynnodd y Clerc i'r Cyng I Davies rhoi gwybod a yw wedi cael ei drwsio - ddim yn y cyfarfod i ymateb
 - b) Mesurydd Traffig – nododd y Clerc bod rhain wedi bod mewn lle
7. **04/14 GOHEBIAETH:**
 - i. Traws Link Cymru – Ymgyrch Rheilffordd Gorllewin Cymru
 - ii. Mark Group – insiwleiddio
 - iii. CSG & ULIC – Fforwm Cyswllt Sirol 20/05/14 yn Neuadd y Sir am 6.15yh – Cyng J Crossley i fynychu
 - iv. Apêl Hosbis Tŷ Cymorth Caerfyrddin a'r Cylch – Diwrnod Agored Sadwrn Mai 17eg o 10yb - 4yp
 - v. CSG– Ymgyrch Glanhau Sir Gaerfyrddin – Clerc i gysylltu a'r ysgol leol i gael gweld a oes diddordeb ganddynt i gydweithio gyda'r Cyngor Bro ar hyn.
 - vi. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - vii. e-bost – Etholiadau Senedd Ewrop yng Nghymru ar 22ain Mai – *nodwyd*
 - viii. e-bost – CSG – E-wyrddgrawn– *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - ix. e-bost – Mesuriadau 2011 Arweiniad Llywodraeth Leol(Cymru)
Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghorion: <http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/lg-measure-2011-part-7/?status=closed&lang=en>
Cyfarwyddyd: <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/lgmeasure11/?lang=en> – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - x. e-bost – LICymru – Diwygiad Deddfwriaethol(Taliadau Cynghorau Cymuned a Siarter Ymddiriedolwyr)Gorchymyn 2014
wedi ei wneud ac mewn grym - *nodwyd*
 - xi. e-bost –Digwyddiad Arbennig cau hewl dros dro – Râs yr Iaith – *nodwyd*
 - xii. e-bost – ULIC – Wythnos Glanhau Arfordir 10fed - 18fed Mai 2014 *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xiii. e-bost – Bardd Preswyl Amgueddfa Wlân Cymru yn Cyhoeddi Casgliad o Gerddi – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xiv. e-bost – BBC 1 Cymru – cyfle i gymryd rhan mewn rhaglen wyliau – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xv. e-bost – ULIC – Diwygiedig: WG21672 Ymgynghoriad ar CC fel Partneriaid Cynllunio Cymuned yng Nghymru
 - xvi. e-bost – SAC Crynodeb Seminar Tir – *nodwyd*
 - xvii. e-bost – J Mc Evoy – Pentrecagal – trefniadaeth statudol ar gyfer gostwng i 30mya yn cychwyn
 - xviii. e-bost – ULIC – Cwrs Iechyd a Diogelwch yn Cyngor Tref Llanelli ar Dydd Mercher 14eg Mai - *nodwyd*
 - xix. e-bost – ULIC – Cyllid Llywodraeth Leol yn Neuadd Ddinesig San Pedr, Caerfyrddin ar Dydd Mawrth 13eg Mai – nododd y Clerc pe byddai'r cwrs yn cael ei gynnal hoffai fynychu.

8. 04/14 CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI

W/27940 - Ymweliad Safle Cais Cynllunio Gweithdy yn Rhosmaen, Rhos ar 08/04/2014

Caniatâd

W/28962 – Mr C Q& Mrs P A Griffin, Pren Criafol, Bryn Saron – amrywiad o amod 2 o ganiatad cynllunio D4/12848 – newid o ran meddiannaeth o'r adeilad gan weithiwr amaethyddol

W/29600 – Mrs Helen Maxwell, Pant y Bara, Velindre SA44 5XT – Adnewyddiad o ganiatad W/25144 – newid deunydd o ganiatad am gyfnod o 24 mis

W/29778 – Wynford Jones, Cilmelyn, Heol y Dderwen SA44 4RP – adeiladu garej ddomestig un llawr yn Cilmelyn

Cais Ymgynghori llawn

W/29891 – GL&JG&A Howells, Shadog, Pentrecwrt SA44 5DD – adnewyddu ac ymestyn lagŵn slyri presennol – *ond bod amodau I & D yn cael eu dilyn*

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

- W/29896 – Mr J Ludgate, Penrallt, Velindre SA44 5XU – trawsnewid taŷ-allan afraid i ffurfio tri llety gwyliau dau ystafell wely – *dim sylwadau*
- W/29930 – Mr J Wayne Maher, Plot ochr arall i Gilwen Hse, Waungilwen SA44 5YG – adeiladu 1 tŷ – *datganwyd pryder am welededd o'r hewl ac hefyd ddim yn cytuno ag adeiladu mewn gardd*
- W/29943 – Mr & Mrs Morgan, Cwnderw, Cwmpengraig SA44 5HW – estyniad – *dim gwrthwynebiad*

Gwrthodwyd

- W/29174 – Mr & Mrs E Phillips, Penllwyn, Velindre – tystysgrif o gyfreithlondeb am ddefnydd presennol - annedd
- W/29067 – Mr H&Mrs C Thomas, rhan o dir Rhydybennau, Pentrecwrt – newid defnydd rhan o sied a iard amaethyddol i storfa lo

9. 04/14 MATERION ARIANNOL

- a) Tendir am dorri llwybrau – derbyniwyd tendr Dylan Davies o Bentrecwrt am y gwaith
- b) Derbyn y Fantolen ar gyfer 2013-14 – derbyniwyd y Fantolen gan y Cyngor yn barod i'w anfon ymlaen i'r Archwilydd Mewnol
- Anfonebau**
- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 28/04/2014£61.20
- ii. HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 28/04/14£10.50
[caniatad i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
- iii. DELWYN JONES [defnyddiau a llafur am drwsio mainc Saron]£48.00
- iv. DWR CYMRU [cwmins Waungilwen]£16.95
- v. PARISH ON LINE[Gweddill i dalu]£19.20
- Arian yn y Banc ar 10/03/2014.....£11,466.88

Derbyniadau

- Rhent Cwmins Waungilwen£480.00
- Ad-daliad TAW£3,007.75

Cais an Gefnogaeth Ariannol

- Ysgol Penboyr – Plac ar Sgwar Gât Felindre - £100
- Apêl Hosbis Tŷ Cymorth Caerfyrddin - *nodwyd*

10. 04/14 ADRODDIAD PWYLLGOR

Ychydig o waith i'w wneud eto ar y fersiwn Saesneg o'r 'Audio Trail'

11. 04/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH

- i. Derbyniwyd deiseb i ostwng cyflydra i 20mya yn Felindre Uchaf – cytunwyd i basio'r ddeiseb ymlaen i'r Cynghorydd Sir K Howell er mwyn iddo wneud trefniadau i'w drosglwyddo i'r Cyngor Sir.
- ii. Hysbysfwrdd Melinau Gwlân ym Mhentrecwrt – dwedwyd bod hwn wedu ei osod ar y sgwar i gofio am y Melinau Gwlân oedd yn y pentref - Clerc i wneud ymholiadau ar bwy sydd yn ei yswirio.

12. 04/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng M Rees – tyllau yn yr hewl o Ger y Llan lawr hyd Drefach – rhoi gwybod i CSir K Howell
- ii. Cyng J Wigley – pryd mae'r gwaith yn cychwyn tu allan i Meysydd – Clerc i wneud ymholiadau
- iii. Cyng J Crossley – awgrymodd i'r Cyngor gynnig i'r Plismon lleol a'r PCSO gael gwahoddiad i Ginio'r Cyngor – cytunwyd i hyn gan y Cynghorwyr
- iv. Cyng C Jones – bod baw cŵn yn dal i fod ar y palmentydd

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf **Nos Lun, Mai 19ed 2014**, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys Penboyr, Felindre

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad